

CYNGOR CYMUNED LLANSTEFFAN A LLANYBRI
LLANSTEFFAN AND LLANYBRI COMMUNITY COUNCIL

SEDD WAG - WARD LLANSTEFFAN

Mae gyda Chyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri sedd wag ar gyfer Cynghorydd Cymuned. Bydd y sedd hon yn cael ei llanw trwy gyfetholiad.

Disgwylir i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd misol y Cyngor a gwasanaethu ar un neu fwy o Bwyllgorau. Mae'r rôl yn un amrywiol sy'n cynnig cyfle i bobl leol ddefnyddio'u sgiliau a'u profiad i gyfrannu at waith y Cyngor er lles y gymuned.

Mae'r Cyngor yn gwahodd unigolion cymwys sydd â diddordeb i gyflwyno'u cais am sedd ar y Cyngor trwy gyfrwng llythyr/ebost yn cynnwys y canlynol:

- yr hyn y credwch y gallwch gyfrannu at waith y Cyngor;
- y rhagoriaethau personol y credwch fydd yn ddefnyddiol yn eich rôl.

Rhaid i chi fod yn ddinesydd Prydeinig, neu'n ddinesydd o'r Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd a thros 18 oed, a rhaid bodloni o leiaf un o'r amodau cymhwyso canlynol:

- rydych wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned a enwir uchod;
- rydych wedi meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn ardal y gymuned fel perchennog neu denant yn ystod y 12 mis cyfan cyn dyddiad eich cais;
- mae eich prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf cyn dyddiad eich cais wedi bod yn ardal y gymuned uchod;
- rydych wedi byw yn ardal y gymuned neu o fewn 4.8km iddi yn ystod y 12 mis cyfan cyn dyddiad eich cais.

Gofalwch eich bod yn cynnwys eich cyfeiriad gartref, rhif ffôn a chyfeiriad ebost yn eich gohebiaeth gyda'r Clerc os gwelwch yn dda.

Dyddiad Cau: 5pm ar y 12^{fed} o Fedi 2022

Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried yn nghyfarfod y Cyngor ar yr 19^{ain} o Fedi 2022

**Anfonwch eich cais, os gwelwch yn dda, at y Clerc Dros Dro, Bay Tree House, Llansteffan, Sir Gâr SA33 5JZ neu ebostiwch eich cais at:
llansteffanandllanybri@gmail.com**